# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0971(ESH) a gyhoeddwyd gan Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, ar 30 Hydref 2009

**At Kirsty Williams:**

Yn ystod y sesiwn Cwestiynau Llafar ar 14eg Hydref, gwnaethoch godi rhai cwestiynau gyda mi am effaith cerbydau a gaiff eu gyrru oddi ar y ffordd yng nghefn gwlad a goblygiadau Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Addewais ysgrifennu atoch ynghylch hyn.

Yn gyntaf, cytunaf y gall gyrru cerbydau yn anghyfreithlon oddi ar y ffordd yng nghefn gwlad gael effeithiau niweidiol i'r amgylchedd a gall hefyd achosi anfodlonrwydd a thrallod i gymunedau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio ers peth amser nawr gyda'n partneriaid gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdodau i'r Parciau Cenedlaethol a'r Heddlu i fynd i'r afael â'r broblem hon. Mae ein dull o weithredu yn seiliedig ar y dull deublyg o orfodaeth ac addysg effeithiol er mwyn bod 'gyrwyr oddi ar y ffordd' yn cadw at safleoedd a llwybrau a gaiff eu defnyddio'n gynaliadwy ar gyfer y gweithgaredd hwn (a heb unrhyw effeithiau niweidiol).

O ran darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf NERC"), eu bwriad oedd egluro pa lwybrau a oedd ar gael ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd drwy ddileu unrhyw hawliau tramwy heb eu cofnodi. Roedd hyn yn golygu na fyddai llwybr ar agor i gerbydau oddi ar y ffordd i'w defnyddio oni bai bod gan y llwybr sydd wedi'i gofnodi ar fap diffiniol lleol hawliau tramwy, fel un â hawliau ar gyfer cerbydau a yrrir yn fecanyddol. Fodd bynnag, roedd hyn yn amodol ar nifer o amodau gan gynnwys yr un y gwnaethoch gyfeirio ato yn eich Cwestiwn ataf ar 14eg Hydref. Os caiff cais ei wneud (o dan adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) i newid y map diffiniol cyn 19eg Mai 2005, byddai angen i'r cais hwnnw gael ei ystyried gan yr awdurdod perthnasol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn yr achos hwn. Fodd bynnag, mae ceisiadau a wnaed ar ôl y dyddiad hwnnw yn ddi-rym, yn unol â darpariaethau Deddf NERC. Cafwyd tipyn o gyhoeddusrwydd i'r peth ar y pryd.

Gall natur gyfreithiol y broses ar gyfer diwygio map diffiniol hawliau tramwy wneud y broses o ystyried achosion o'r fath yn broses hir, er y dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wella amseru'r broses hon erbyn hyn ac yn enwedig yn sgîl yr adnoddau ychwanegol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu er mwyn gweithredu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy statudol. Mae Awdurdod y Parc wedi derbyn adnoddau ychwanegol o fwy na £90,000 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer gwaith Cynllun Gwella - a bydd fy swyddogion felly yn codi'r mater o wneud mwy o gynnydd gyda'r ceisiadau hyn sydd heb eu datrys gyda hwy.

Efallai yr hoffech godi'r mater hwn gyda hwy ar ran unrhyw un o'ch etholwyr sy'n poeni am y diffyg cynnydd i ddatrys ceisiadau o'r fath.

O ran y cyfeiriad penodol a wnaethoch yn eich e-bost dyddiedig 27ain Hydref at gais i uwchraddio llwybr ceffylau rhif 6 ym Mhenparc, ni fyddai'n briodol i mi roi sylwadau arno. Mater i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol benderfynu arno'n gyntaf yw hwn. Ni hoffwn ragfarnu'r broses gan y gall yr achos ddod i Lywodraeth y Cynulliad yn y pen draw i benderfynu arno.